## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (CYFFORDD 35 (DOBSHILL) I GYFFORDD 36 (THE WARREN), SIR Y FFLINT) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2022

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 35 (Dobshill) a Chyffordd 36 (The Warren), yn Sir y Fflint.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i) gwahardd pob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys), beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darnau tua'r gorllewin a thua'r dwyrain o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn Atodlenni 1 a 2 i'r Hysbysiad hwn hefyd;

ii) gwahardd cerbydau sy'n lletach na 3.0 metr rhag defnyddio'r llwybrau eraill a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Hysbysiad hwn a chânt eu parcio dros nos hyd nes bod y system rheoli traffig wedi ei symud ymaith. Bydd Heddlu Gogledd Cymru yn hysbysu llwythi llydan am y cyfyngiad;

iii) gosod terfyn cyflymder o naill ai 50, 40 neu 30 mya ar brif gerbytffyrdd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn a bydd y terfynau cyflymder yn weithredol yn ystod cyfnod y gwaith.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol yn ysbeidiol o 18:00 o'r gloch ar 28 Chwefror 2022 hyd 06:00 o'r gloch ar 8 Ebrill 2022 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Bydd y gwaith yn cael ei wneud mewn 2 gyfnod. Disgwylir i waith cyfnod 1 ddechrau ar y gerbytffordd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin o 28 Chwefror 2022 a bydd yn para am tua 3 wythnos. Disgwylir i waith cyfnod 2 ddechrau ar y gerbytffordd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain o 21 Mawrth 2022 a bydd yn para am tua 3 wythnos.

Disgwylir y bydd cau'r ffordd yn weithredol dros nos yn unig yn ystod yr wythnos, o ddydd Llun i ddydd Iau (18:00 o'r gloch hyd 06:00 o'r gloch), a bydd yn weithredol yn barhaus ar benwythnosau o 18:00 o'r gloch ar y dydd Gwener hyd 06:00 o'r gloch ar y dydd Llun ar y brif gerbytffordd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael.

## THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 35 (DOBSHILL) TO JUNCTION 36 (THE WARREN), FLINTSHIRE) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS AND RESTRICTIONS) ORDER 2022

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 35 (Dobshill) and Junction 36 (The Warren) in the County of Flintshire.

The effect of the Order is to temporarily:

i) prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services), cyclists and pedestrians from proceeding on the westbound and eastbound lengths of the trunk road specified in Schedule 1 and 2 to this Notice. The alternative routes, which will be signed accordingly, are also described in Schedule 1 and 2 to this Notice;

ii) prohibit vehicles over 3.0 metres wide from using the alternative routes specified in Schedule 1 and 2 to this Notice and will be parked up overnight until the traffic management is removed. North Wales Police will notify wide loads of the restriction;

iii) impose either a 50, 40 or 30 mph speed limit on the main carriageways of the lengths of the trunk road specified in Schedule 3 to this Notice and the speed limits will operate for the duration of the works.

The temporary prohibitions and restrictions, which will be signed accordingly, are expected to operate intermittently from 18:00 hours on 28 February 2022 until 06:00 hours on 8 April 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The works will be split into 2 phases with phase 1 works expected to commence on the westbound carriageway and slip roads from 28 February 2022 for approximately 3 weeks and phase 2 works expected to commence on the eastbound carriageway and slip roads from 21 March 2022 for approximately 3 weeks.

Road closures are expected to operate overnight only on weekdays from Monday to Thursday (18:00 hours until 06:00 hours) and will operate continuously on weekends from 18:00 hours on the Friday until 06:00 hours on the Monday on the main carriageway and slip roads.

Lane closures only are expected to operate during day-time hours on weekdays from 06:00 hours on the Monday to 18:00 hours on the Friday on the main carriageway, with slip roads remaining open to all traffic.

Disgwylir y bydd y lonydd yn unig ar gau yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos ac y bydd hynny'n weithredol o 06:00 o'r gloch ar y dydd Llun hyd 18:00 o'r gloch ar y dydd Gwener ar y brif gerbytffordd, bydd y ffyrdd ymuno ac ymadael yn aros ar agor i bob traffig yn y cyfnodau hyn.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**

**Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro a Llwybrau Eraill**

**Cyfnod 1**

1. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr A55 sy'n ymestyn o drwyniad ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren) hyd at drwyniad ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyffordd 35 (Dobshill).

2. Y darnau cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 36 (The Warren) a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 35 (Dobshill).

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin o Gyffordd 36 fydd mynd ar yr A5104 i gyfeiriad cyffredinol y gorllewin i Benymynydd ac yna ar yr A550 i gyfeiriad y gogledd i ailymuno â'r A55 wrth Gyffordd 35.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE 1**

**Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians and Alternative Routes**

**Phase 1**

1. The length of the A55 westbound carriageway that extends from the nosing of the westbound exit slip road of Junction 36 (Warren Interchange) to the nosing of the westbound entry slip road of Junction 35 (Dobshill).

2. The entire lengths of the westbound entry slip road at Junction 36 (The Warren) and the westbound exit slip road at Junction 35 (Dobshill).

The alternative route for westbound traffic from Junction 36 will be via the A5104 in a generally westerly direction to Penymynydd and then the A550 in a northerly direction to re-join the A55 at Junction 35.

## ATODLEN 2

### Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro a Llwybrau Eraill

**Cyfnod 2**

1. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 35 (Dobshill) hyd at drwyniad ffordd ymuno tua'r dwyrain Cyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren).

2. Y darnau cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 35 (Dobshill) a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36 (The Warren).

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain o Gyffordd 35 fydd mynd ar yr A550 i gyfeiriad y de i Benymynydd ac yna ar yr A5104 i gyfeiriad cyffredinol y dwyrain i ailymuno â'r A55 wrth Gyffordd 36.

## ATODLEN 3

### Terfynau Cyflymder 50 mya, 40 mya neu 30 mya Dros Dro

1. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Pont Wood Lane, i'r gorllewin o Gyffordd 35 (Dobshill), hyd at ganolbwynt y drosbont wrth Gyffordd 36A (Brychdyn).

2. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y drosbont wrth Gyffordd 36A (Brychdyn) hyd at ganolbwynt Pont Wood Lane, i'r gorllewin o Gyffordd 35 (Dobshill).

## SCHEDULE 2

### Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians and Alternative Routes

**Phase 2**

1. The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 35 (Dobshill) to the nosing of the eastbound entry slip road of Junction 36 (Warren Interchange).

2. The entire lengths of the eastbound entry slip road at Junction 35 (Dobshill) and the eastbound exit slip road at Junction 36 (The Warren).

The alternative route for eastbound traffic from Junction 35 will be via the A550 in a southerly direction to Penymynydd and then the A5104 in a generally easterly direction to re-join the A55 at Junction 36.

## SCHEDULE 3

### Temporary 50 mph, 40 mph or 30 mph Speed Limits

1. The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the centre-point of Wood Lane Bridge, west of Junction 35 (Dobshill) to the centre point of the overbridge at Junction 36A (Broughton).

2. The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the centre-point of the overbridge at Junction 36A (Broughton) to the centre-point of Wood Lane Bridge, west of Junction 35 (Dobshill).